

Cod diwygiedig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC): Cwestiynau Cyffredin

Y Cod diwygiedig

Rydym yn diweddarau ein Cod safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd cofrestredig yn rheolaidd er mwyn ystyried datblygiadau o ran arferion nyrsio a bydwreigiaeth a disgwyliadau newidiol cymdeithas o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Cod diwygiedig yn amlinellu'r safonau cyffredinol diwygiedig y mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd eu cynnal bob dydd er mwyn ymuno â Chofrestr yr NMC a chadw'u lle arni. Mae strwythur y Cod diwygiedig yn adlewyrchu pedair prif thema sydd wedi'u dylunio i gefnogi ansawdd o ran gofal ac iechyd: rhoi pobl yn gyntaf, sicrhau diogelwch, ymarfer yn effeithiol a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth.

Cafodd y cod ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, nyrsys a bydwagedd, er cyflogwyr, addysgwyr ac eraill.

Cyhoeddwyd y Cod diwygiedig ar ein gwefan ar 29 Ionawr 2015 a daw'n weithredol i bob nyrs a bydwraig o 31 Mawrth 2015 ymlaen.

Cw: Beth yw diben y Cod?

A: Mae'r Cod yn amlinellu'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd eu cynnal bob dydd er mwyn ymuno â Chofrestr yr NMC a chadw'u lle arni. Mae'n cwmpasu safonau craidd ymddygiad, perfformiad a moeseg ac mae'n allweddol er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gofal yn barhaus. Yn ei hanfod, mae'n diffinio ystyr bod yn weithiwr proffesiynol a reoleiddir. Mae hefyd yn ganllaw i bob nyrs a bydwraig er mwyn adlewyrchu ar eu harfer dyddiol, eu dull gweithredu proffesiynol a'u hathroniaeth.

Cw: Pam ydyn ni wedi llunio Cod newydd?

A: Rydym yn adolygu ein Cod ymarfer proffesiynol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â disgwyliadau'r cyhoedd o ran iechyd a gofal cymdeithasol ac yn hybu gwelliannau yn ansawdd a diogelwch ymarfer nyrsys a bydwagedd.

Mae'r Cod diwygiedig wedi'i gysoni â phrosesau rheoleiddio iechyd eraill ledled y DU ac mae'n ymateb i adroddiadau proffil uchel ar gyflwr y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cydnabod ac yn adlewyrchu datblygiadau yng nghyd-destun nyrsio a bydwreigiaeth.

Cw: Pryd y daw'r Cod newydd yn weithredol?

A: Daw'r Cod diwygiedig yn weithredol ar 31 Mawrth 2015, gan ddisodli Cod 2008. Mae wedi bod ar gael ar ein gwefan ers 29 Ionawr 2015.

Cw: Beth mae'r Cod yn ei gwmpasu?

A: Mae'r Cod yn cwmpasu pedair thema gyffredinol: rhoi pobl yn gyntaf, sicrhau diogelwch, ymarfer yn effeithiol a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth. Yn ei hanfod, mae'n diffinio ystyr bod yn weithiwr proffesiynol a reoleiddir. Mae hefyd yn ganllaw i bob nyrs a bydwraig er mwyn adlewyrchu ar eu harfer dyddiol, eu dull gweithredu proffesiynol a'u hathroniaeth.

Cw: Beth sy'n newydd yn fersiwn 2015 o'r Cod?

A: Mae'r Cod newydd yn adeiladu ar y seilwaith sy'n bodoli eisoes, sef ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth dda, ond mae'n cynnwys canllawiau wedi'u diweddarau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, rhagnodi a rheoli moddion, hanfodion gofal, dyletswydd broffesiynol, cymryd camau brys, pennu ffiniau proffesiynol clir a chodi pryderon.

Cw: Ar gyfer pwy y mae'r Cod?

A: Mae'r Cod ar gyfer pob nyrs a bydwraig sy'n ymarfer yn y DU. Mae hefyd ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth dda:

- Gall nyrsys a bydwragedd ei ddefnyddio fel ffordd o fyfyrion ar eu proffesiynoldeb a'i gynnal.
- Gall cyflogwyr ei ddefnyddio i helpu eu staff i gynnal safonau fel rhan o ddarparu ansawdd a diogelwch.
- Gall addysgwyr ddefnyddio'r Cod i helpu myfyrwyr i ddeall beth mae'n ei olygu i fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig.

Cw: Sut y dylai nyrsys a bydwragedd ddefnyddio'r Cod?

A: Drwy ddarllen a chyfeirio at y Cod, gall nyrsys a bydwragedd atgyfnerthu eu proffesiynoldeb tra'n ei ddefnyddio fel canllaw i'w hymarfer proffesiynol beunyddiol.

Cw: Beth yw rôl y Cod newydd yn y broses o gofrestru ac ail-ddilysu nyrsys a bydwragedd?

A: Caiff addasrwydd nyrsys a bydwragedd i ymarfer ei fesur yn erbyn gofynion y Cod pan fydd yr NMC yn eu cofrestru i weithio yn y DU am y tro cyntaf. Mae'r rheini sy'n ymuno â'r gofrestr yn cytuno i lynu at y Cod. Bydd yn adnodd allweddol wrth ail-ddilysu: y gwaith o ail-gadarnhau addasrwydd i ymarfer, a wneir bob tair blynedd.

Cw: Beth mae'r Cod yn ei olygu i mi fel cyflogwr nyrsys neu fydwragedd?

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn gallu ymarfer yn unol â gofynion y Cod. Mae'r Cod yn cefnogi'r amcan hwn drwy sicrhau y caiff pob cysylltiad, cam gweithredu a phenderfyniad a wneir gan nyrs neu fydwraig ei lywodraethu gan safonau ac egwyddorion proffesiynol craidd.

Gellir defnyddio'r Cod hefyd fel adnodd o ran gwerthuso a datblygiad staff. Mae'r safonau a ddefnyddir i farnu nyrsys a bydwragedd - ac a ddefnyddir ganddynt i farnu eu hunain - yn hanfodol i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn eich sefydliad. Mae'r Cod yn sail i'n ffordd o asesu addasrwydd i ymarfer nyrsys a bydwragedd a gaiff eu hatgyfeirio atom os bydd pryderon ynglŷn â'u hymarfer.

Cw: Pwy a fu'n rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio'r Cod?

A: Gwnaethom ymgynghori â'r cyhoedd, nyrsys a bydwagedd, eu cyflogwyr, addysgwyr ac eraill. Cafodd codau rheoleiddio eraill a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal eu dadansoddi hefyd er cymhariaeth.

Cw: Oes rhaid i nyrsys a bydwagedd wneud unrhyw beth yn wahanol er mwyn cynnal y Cod diwygiedig?

A: Mae'r Cod diwygiedig wedi'i ddylunio i gyfleu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth da. Mae'r meysydd newydd a gaiff eu cwmpasu gan y Cod yn cynnwys canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfryngau cymdeithasol, rhagnodi a rheoli meddyginiaeth, hanfodion gofal, dyletswydd broffesiynol, cymryd camau brys, cynnal ffiniau proffesiynol clir a chodi pryderon.

Gall nyrsys a bydwagedd ddefnyddio'r Cod diwygiedig i atgoffa eu hunain o'u cryfderau a thynnu sylw at fannau lle gallant wella neu ddatblygu eu hymarfer.

Cw: Beth mae'r Cod yn ei olygu i gleifion?

A: Mae'r Cod yn cwmpasu'r hyn y dylai cleifion, eu teuluoedd a'r cyhoedd ei ddisgwyl gan nyrsys a bydwagedd. Bydd yn eu sicrhau bod eu hamddiffyn yn rhan ganolog o ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth. Bydd taflen wybodaeth sy'n amlinellu'r hyn mae'r Cod yn ei olygu i gleifion ar gael ar ein gwefan o 31 Mawrth.

Cw: Beth all cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ei wneud os oes ganddynt gŵyn am y driniaeth maent wedi'i chael gan nyrs neu fydwraig?

A: Caiff cleifion a defnyddwyr gwasanaeth eu hannog i godi eu llais os byddant o'r farn nad yw nyrs neu fydwraig wedi bodloni'r safonau proffesiynol sydd o fewn y Cod. Rydym wedi llunio taflen wybodaeth sy'n cynnig arweiniad os ydych yn y sefyllfa hon. Mae ar gael ar ein gwefan (Saesneg yn unig) : http://www.nmc-uk.org/Documents/NMC-Publications/nmcStandardsforPre_RegistrationMidwiferyEducation.pdf

Cw: Beth yw Ail-ddilysu?

Bydd Ail-ddilysu'n weithredol o 2016 ymlaen.

Bydd angen i bob nyrs neu fydwraig ail-ddilysu bob tair blynedd er mwyn aros yn gofrestredig a pharhau i fod yn gymwys i ymarfer. Mae'r dull yn cael ei dreialu gan safleoedd pilot ledled y DU a bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan drwy gydol y flwyddyn. Nod Ail-ddilysu yw gwella diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn parhau i fod yn addas i ymarfer drwy gydol eu gyfaoedd.

Cw: Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am y Cod neu'r NMC?

Mae gwybodaeth am bob agwedd ar waith yr NMC, gan gynnwys y Cod, ar ein gwefan: www.nmc-uk.org. Gallwch ein dilyn ar Twitter @nmcnews, neu Facebook <https://www.facebook.com/nmcuk>

Blaenoriaethu pobl

Ymarfer yn effeithiol

Cynnal diogelwch

Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth